



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 25 Ebrill 2018

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MERCHER, 2 MAI 2018** am **10.00** am yn **YSTAFELL CABINET, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn. (copi wedi'i amgáu)

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 (copi wedi'i amgáu)

5 SAFONAU'R GYMRAEG (Tudalennau 11 - 14)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm –Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd i friffio am ddatblygiadau gyda Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych (copi wedi'i amgáu)

6 STRATEGAETH Y GYMRAEG (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm –Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd i friffio'r Pwyllgor am Strategaeth y Gymraeg y Cyngor. (copi wedi'i amgáu)

7 RÔL SWYDDOG Y GYMRAEG

Ystyried adroddiad ar lafar gan Arweinydd Tîm -Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd i friffio'r Pwyllgor am Rôl y Swyddog Iaith Cymraeg newydd.

8 EISTEDDFOD YR URDD - DIWEDDARIAD (Tudalennau 21 - 26)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm –Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd i ddiweddarau'r Pwyllgor am gynnydd ar drafodaethau yn ymwneud â dychweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'r sir yn 2020 ac amlinellu'r goblygiadau o ran adnoddau i'r Cyngor (copi wedi'i amgáu)

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 27 - 28)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Paul Penlington
Arwel Roberts

Anton Sampson
Tony Thomas
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cyngorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 18 Rhagfyr 2017 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Anton Sampson, Tony Thomas, Graham Timms a Joe Welch

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (GW); Prif Reolwr Cefnogi Addysg (GD); Swyddog Datblygu Staff (MW); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Ellie Chard, Tony Flynn, Paul Penlington ac Emrys Wynne.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Tony Thomas y dylid penodi'r Cynghorydd Graham Timms yn Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill ac o'i roi i'r bleidlais -

PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Graham Timms yn Gadeirydd Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol.

4 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies y dylid penodi'r Cynghorydd Tony Thomas yn Is-gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Anton Sampson. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill ac o'i roi i'r bleidlais -

PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Tony Thomas yn Is-gadeirydd Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol.

5 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryn.

6 DATBLYGIAD STRATEGOL YR IAITH GYMRAEG

Gan ystyried mai hwn oedd cyfarfod cyntaf Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg, roedd swyddogion o'r farn y byddai'n ddefnyddiol darparu cyd-destun a diweddariad ar Safonau'r Gymraeg a'r gwaith a wnaed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn enwedig o ran gofynion deddfwriaethol. Er bod gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar Safonau'r Gymraeg, roedd eitemau ar y rhaglen hefyd yn cynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'r Fframwaith Mwy Na Geiriau, er mwyn rhoi ymwybyddiaeth i aelodau o'r gwaith a wneir drwy fforymau eraill yn y gymuned ehangach.

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a rhoddodd gyflwyniad PowerPoint a oedd yn cynnwys -

- y sefyllfa hanesyddol pan fyddai awdurdodau lleol unigol yn datblygu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer y Gymraeg a oedd yn amrywio'n fawr o ran ansawdd
- deddfwriaeth newydd ar ffurf Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r bwriad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal
- creu Comisiynydd y Gymraeg a datblygu safonau'r Gymraeg
- mae 169 o Safonau'r Gymraeg wedi'u cyhoeddi a'u categorio dan y themâu: gohebiaeth, hybu, llunio polisi a gweinyddiaeth fewnol, ac roedd y Cyngor wedi ymateb iddynt mewn ffordd gadarnhaol
- rôl a phwerau Comisiynydd y Gymraeg o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth y Gymraeg (cymeradwywyd mis Chwefror 2017) sydd wedi amlygu pum maes allweddol i'w datblygu gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych o 0.5% dros y pum mlynedd nesaf gyda bwriad o ystyried targed hirdymor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y pymtheg mlynedd nesaf, a
- chyfrifoldeb strategol am Safonau'r Gymraeg a thrin materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Tynnwyd sylw Aelodau at yr adroddiad a mesurau eraill i gryfhau a hybu'r Gymraeg yn yr awdurdod gan gynnwys; penodi Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg; sesiynau galw heibio i staff; cortynnau gwddf Iaith Gwaith; llofnodion e-bost dwyieithog; Cysill a Microsoft Office yn Gymraeg; ateb y ffôn; y fewnrwyd; casglu gwybodaeth am staff; priif linell ffôn y cyngor; gwobrau rhagoriaeth staff; diwylliant/ethos y sefydliad; ymarfer siopwr cudd a chyflwyno cydymffurfio â'r Gymraeg mewn heriau gwasanaeth. Roedd swydd Swyddog Iaith Gymraeg yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd i gynorthwyo ymhellach â datblygiad strategol y Gymraeg yn yr awdurdod. Er bod staff a chynghorwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg, roedd lle i wella o hyd.

Trafododd Aelodau amrywiol agweddau ar yr adroddiad gyda swyddogion, gan gynnwys -

- **Strategaeth y Gymraeg** – cyfeiriwyd at y targed 0.5% ac roedd rhai yn ystyried ei fod wedi'i osod yn rhy isel.

Gan ystyried y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diweddar, roedd yn bwysig gosod targed realistig yn y tymor byrrach (byddai'r canlyniad yn cael ei fesur gan y cyfrifiad yn 2021) a'r bwriad oedd gosod targed mwy heriol dros y tymor hirach. Roedd dull amlochrog ar draws pob amrywiaeth oedran yn cael ei ddilyn ac er bod pobl ifanc yn y system addysg yn faes twf sylweddol, y bwriad yn y tymor hwy oedd cadw siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych drwy gyfleoedd cyflogaeth a gweithio gyda dosbarthiadau addysg oedolion.

- **Gwobrau Rhagoriaeth Staff** – roedd y gwobrau i anrhydeddu staff am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i ddatblygu'r Gymraeg yn y cyngor wedi'u croesawu'n fawr ac adroddodd swyddogion am effaith gadarnhaol enillwyr y gorffennol gan ymhelaethu am eu gwaith parhaus o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gwasanaeth eu hunain a meysydd gwasanaeth eraill, gan rannu arfer gorau a hybu'r Gymraeg.
- **Casglu gwybodaeth am staff** – wrth hunanasesu eu sgiliau ieithyddol, roedd llawer o staff yn amharod i adlewyrchu'n gywir eu gallu i sgwrsio yn Gymraeg am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys hyder yn eu gallu eu hunain, ac roedd y Strategaeth yn cynnwys yr angen i feithrin hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac annog a chefnogi staff yn hynny o beth.
Roedd rhai staff hefyd yn poeni y byddai gofyn iddynt gymryd dyletswyddau penodol fel siaradwr Cymraeg/cyfieithydd dynodedig yn y gwasanaeth yn ogystal â'r swydd roeddent yn cael eu cyflogi i'w gwneud, ac roedd yn bwysig i gadw hynny mewn cof. Gobeithiwyd y byddai hunanasesiadau yn y dyfodol yn adlewyrchu sgiliau ieithyddol staff yn fwy cywir.
- **Cyfieithu adroddiadau drafft** – roedd mater bod adroddiadau drafft yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig wedi'i godi o'r blaen.
Eglurwyd mai pwrpas y Pwyllgor oedd canolbwyntio ar Safonau'r Gymraeg a Strategaeth y Gymraeg. Oherwydd nad oedd gofyniad ar hyn o bryd i ddogfennau drafft gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, nid oedd effaith negyddol ar y Safonau o ran cydymffurfio ac nid oedd yn fater i'r Pwyllgor.
- **Gwasanaethau Cyfieithu Conwy/Cyfieithu Mewnol** – roedd rhai materion wedi'u codi o ran ansawdd cyfieithiadau, ar gyfer dogfennau pwyllgor a rhai datganiadau i'r wasg diweddar, a gwnaeth swyddogion ymhelaethu ar y gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd â dibynnu ar ewyllys da staff ar gyfer cyfieithiadau mewnol penodol pan oedd angen brys i ymateb yn syth i sefyllfa benodol, fel darparu gwybodaeth a diweddariadau yn ystod y tywydd gwael diweddar. Pe bai'r Cyngor yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth i'r cyfieithiadau brys hynny, byddai angen rhoi ystyriaeth yn y broses o osod y gyllideb i sut i gyflawni'r ddarpariaeth y tu allan i oriau. Roedd aelodau'n cydnabod yr anawsterau o ran tafodiaith ranbarthol ac arddull benodol o ran darparu gwasanaethau cyfieithu a soniodd swyddogion am fanteision y gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gan Gonwy o ran terminoleg gyson gan fod llawer o'r cyfieithwyr yn seiliedig yn lleol iawn. Roedd cwynion ac ymholiadau o ran safon cyfieithiadau Cymraeg wedi lleihau ac roeddent yn tueddu i ganolbwyntio yn bennaf ar arddull a dewisiadau geirfa yn hytrach na chamgymeriadau. Roedd sylwadau diweddar a wnaed, gan gynnwys pryderon o ran cyfieithu cofnodion y cyngor, wedi'u trafod yn uniongyrchol gyda Chonwy ac roedd sylw yn cael ei roi i hyn. Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn teimlo y dylid gwneud rhagor o waith o ran y gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gan Gonwy er mwyn darparu sicrwydd o ran safonau ansawdd a gwerth gorau.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

7 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020

Cyflwynodd Prif Reolwr Cymorth Addysg adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 - 2020 y Cyngor a oedd yn dangos sut byddai'r canlyniadau a'r targedau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar waith a wnaed hyd yma wrth aros am gymeradwyaeth ffurfiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun drafft.

Roedd yr oedi o ran cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun wedi achosi rhwystredigaeth ond disgwyliwyd y byddai cymeradwyaeth yn dod yn y Flwyddyn Newydd a byddai'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo wedyn. Roedd y Cynllun yn canolbwyntio ar wella sgiliau, yn enwedig cyfathrebu ar lafar a dealltwriaeth ac roedd yn gweithio tuag at y canlyniadau a ganlyn -

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd
- mwy o fyfyrwyr 14 - 16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o fyfyrwyr rhwng 14 - 19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith
- mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg
- darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol
- cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Eglurwyd rôl y Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o ran cefnogi a monitro gweithredu'r Cynllun a darparwyd manylion aelodaeth y Grŵp. Byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud yn cyfrannu at Lywodraeth Cymru yn cyflawni ei darged o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac roedd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ran i'w chwarae. Fodd bynnag, roedd canfyddiad bod y Cynllun yn ymwneud ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu ac annog cyfranogiad ysgolion cyfrwng Saesneg – roedd cynyddu swm ac ansawdd Cymraeg a addysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn amcan allweddol. Yn olaf, tynnwyd sylw aelodau at y gyfradd ymateb siomedig i'r ymgynghoriad ar y Cynllun drafft, er gwaethaf sylw helaeth, ac roedd her wrth greu'r cynllun nesaf i sicrhau rhagor o fewnbwn a rhagor o ymateb gan fudd-deiliaid.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- cydnabuwyd pwysigrwydd datblygu sgiliau ar gam cynnar i wella cynnydd, ynghyd â'r heriau o sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer hwyrddyfodiaid i ysgolion i sicrhau eu llwyddiant.

- nid oedd tystiolaeth amlwg i awgrymu bod disgyblion yn symud o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg i astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch nac unrhyw ddata i ddangos bod disgyblion yn cyflawni graddau is wrth iddynt gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar y lefel honno. Roedd y penderfyniad o ran lle i astudio i lawr i ddewis rhieni. Fodd bynnag nodwyd bod rhai pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn unig mewn rhai lleoliadau ac roedd disgyblion yn trosglwyddo o un ysgol i'r llall gan ddibynnu ar yr amrywiaeth o bynciau sydd ar gael.
- roedd rhywfaint o drafodaeth yn canolbwyntio ar gategoreiddiad iaith ysgolion penodol a dywedwyd wrth aelodau fod nifer y plant a oedd yn parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg yn dilyn trosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd yn cael ei fonitro gan Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac roedd swyddogion yn datblygu strategaeth farchnata i sicrhau bod rhieni yn gwbl ymwybodol o'r ffeithiau wrth ddewis ysgol uwchradd i'w plentyn gyda bwriad o hyrwyddo'r cynnig Cymraeg – nod y grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg oedd nid colli disgyblion o'r ffrwd Gymraeg ar lefel uwchradd; o ran Ysgol Brynhyfryd, cadarnhaodd swyddogion fod y ffrwd 'N' wedi'i dileu gan adael y ffyrddau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.
- er ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cyfrifoldeb y Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg oedd cefnogi a monitro ei weithredu. Fodd bynnag, byddai croeso i aelodau fynychu cyfarfod y Grŵp yn y dyfodol ac arsylwi lefel y drafodaeth, roedd manylion hyn yn cael eu darparu yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

8 FFRAMWAITH MWY NA GEIRIAU

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu Staff yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybod i aelodau am y cynnydd a wnaed o ran datblygu'r fframwaith Mwy na geiriau/More than just words a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012.

Pwrpas y fframwaith oedd hybu'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a'r nod oedd sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan annatod o ofal a bod pobl a oedd angen gwasanaethau yn Gymraeg yn cael cynnig hynny – gelwid hyn yn 'Gynnig Gweithredol'. Roedd hon yn neges a oedd wedi'i hybu gyda'r staff i gyd, waeth a oeddent yn staff mewnol neu staff a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau.

Roedd camau gweithredu i'w gweithredu gan y Cyngor yn 2017-18 yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn -

- darparu manylion ar sut roedd gwasanaethau yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd ochr yn ochr â thargedau i sicrhau gwelliant
- sicrhau bod gallu a chymhwysedd iaith Gymraeg staff wedi'u cynnwys mewn gweithdrefnau adnoddau dynol a recriwtio

- rhannu arfer gorau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg eu hiaith a sut i wneud 'Cynnig Gweithredol' gyda'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol neu mewn gwasanaethau a gomisiynir
- darparu hyfforddiant ac adnoddau iaith i'r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gynyddu eu hyder o ran darparu gwasanaethau yn Gymraeg
- darparu rhyngwynebau a meddalwedd iaith Gymraeg i staff gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i'w galluogi a'u helpu i weithio mewn ffordd ddwyieithog

Croesawodd yr Aelodau'r fframwaith, gan amlygu pwysigrwydd sicrhau bod pobl a oedd angen gwasanaethau yn Gymraeg yn cael cynnig hynny, heb orfod gofyn, yn enwedig gan fod staff yn delio gydag unigolion diamddiffyn iawn mewn llawer o achosion. Gan ymateb i gwestiynau eglurodd swyddogion fod dewis iaith yn cael ei sefydlu ar y pwynt cyntaf o ran ymholiad a'i drosglwyddo i sicrhau bod staff mewn gwahanol wasanaethau yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn dan sylw. Roedd gofal yn cael ei gymryd o ran darparu gwasanaethau mewn cartrefi preswyl/nyrsio a lleoliadau gofal dydd hefyd i sicrhau rhyngweithio priodol a thrwy wahanol weithgareddau er mwyn meithrin hyder. Roedd gwaith yn cael ei wneud i feithrin hyder staff o ran defnyddio'r Gymraeg a dysgu'r eirfa ac roedd cynllunio'r gweithlu yn fater allweddol. O ran monitro cynnydd, roedd angen adroddiad blynyddol ar Lywodraeth Cymru ar ddarparu camau gweithredu penodol o ran gweithredu'r fframwaith a byddai monitro pellach hefyd yn cael ei wneud mewn systemau monitro presennol, fel mewn arolygiadau AGGCC. Roedd yn ddymunol nodi bod y Cyngor wedi cael adroddiadau cadarnhaol iawn gan rheoleiddwyr o ran y Gymraeg, er ei bod yn daith barhaus o ran gwelliant.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor i'w hystyried.

Byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod bob tri mis a byddai dyddiadau cyfarfod ar gyfer mis Mawrth a mis Mehefin 2018 yn cael eu cadarnhau yn dilyn ymgynghori ag aelodau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau waith y Pwyllgor o ran Safonau'r Gymraeg a Strategaeth y Gymraeg a chytunwyd i ddosbarthu cylch gorchwyl y Pwyllgor i aelodau i sicrhau rhwyddineb o ran cyfeirio.

Yn dilyn ystyriaeth o'r eitemau yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol -

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 a.m.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor yr Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Mai
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
Awdur yr Adroddiad:	Gareth Watson – Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
Teitl:	Safonau'r Gymraeg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Briffio ar ddatblygiadau gyda Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi cynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae cryn dipyn o waith wedi digwydd yn Sir Ddinbych yn yr ymdrech i ymateb yn bositif i newidiadau mewn deddfwriaeth iaith. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i osod safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth y Gymraeg, fel rhan o'i ymateb i'r Safonau.

Mae'r Cyngor wedi ymateb yn bositif i'r ddeddfwriaeth newydd ac wedi gwneud ymrwymiad i groesawu Safonau'r Gymraeg a gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y Cyngor.

Mae'r Cyngor eisoes yn ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Iaith Gymraeg ac mae eisoes wedi gweithredu llawer o'r camau a gytunwyd. Mae wedi ymateb yn bositif hefyd i'r fframwaith Mwy na Geiriau sydd wedi'i roi mewn lle i wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith ac mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithredu'r cynllun gweithredu yn y sir, er budd trigolion y sir.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r Safonau. Er bod y Cyngor yn falch o'r cynnydd a wnaethpwyd, mae sicrhau bod y Cyngor cyfan yn cydymffurfio â'r Safonau yn dal i fod yn her, oherwydd maint a gwasgariad daearyddol y sefydliad.

Safonau'r Gymraeg: Prif ffocws y Cyngor dros y tair blynedd diwethaf fu paratoi a gweithredu'r 169 o Safonau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Mae gwaith helaeth wedi mynd rhagddo o fewn gwasanaethau i newid prosesau, gan sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth dwyieithog, gan ganolbwyntio ar y cynnig gweithredol.

Mae'r Safonau yn gysylltiedig â gohebiaeth, hyrwyddo, llunio polisi a gweinyddu o fewn y Cyngor.

Mae llawer o gyfathrebu wedi digwydd mewn cysylltiad â'r Safonau, gan gynnwys negeseuon rheolaidd i staff gan y Prif Weithredwr, cyflwyniadau mewn Cynadleddau Arweinyddiaeth, sesiynau galw heibio i staff, cyflwyniadau mewn cyfarfodydd tîm.

Rhestr o gamau a ymgymerwyd i gydymffurfio â safonau darparu gwasanaeth.

- Rydym wedi darparu gohebiaeth i staff am ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi sicrhau bod holl staff yn cynnig trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor.
- Rydym wedi cyflwyno un rhif ffôn ar gyfer prif switsfwrdd y Cyngor, sy'n rhoi'r opsiwn i bobl ddewis Gwasanaeth iaith Gymraeg.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyr, gan gynnig cyfle i drigolion ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi neges ar ffôn y Ganolfan Gyswllt wedi'i recordio i nodi bod y llinell Gymraeg ar gael.
- Rydym wedi hysbysu staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus y dylai pob cyhoeddusurwydd/gwahoddiad fod yn y Gymraeg, y dylid trefnu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y gallant gyfrannu yn Gymraeg.
- Bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd hyrwyddo a dogfennaeth arddangos.
- Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar ein gwefan yn ddwyieithog.
- Mae pob ffurflen grant a dderbynnir yn y Gymraeg yn derbyn ymateb yn y Gymraeg.

Rhestr o gamau a gymerwyd i gydymffurfio â Safonau Gweithredol yn ystod 2016/17

- Rydym wedi cynhyrchu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar ein mewnwrwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses AD lle gofynnir i'r holl staff a ydynt yn dymuno cael eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi'i gyfeirio atynt yn bersonol (yn Gymraeg).
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn y Gymraeg.

- Mae'r staff yn gallu gwneud cwynion yn Gymraeg drwy'r drefn gwyno gorfforaethol ac mae staff yn gwybod am hyn.
- Mae Gweithdrefn Gwyno Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi y gall staff wneud cwyn yn y Gymraeg ac mae ganddynt hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg. Mae'r staff wedi cael gwybod am yr hawl honno.
- Bydd y staff yn cael cynnig cyfle i gynnal unrhyw gyfarfodydd ynglŷn â chwynion a wneir yn eu herbyn yn y Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg (a bydd unrhyw gyfarfod dilynol yn cael ei gynnal yn y Gymraeg).
- Mae ein polisiâu Adnoddau Dynol yn datgan y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg wedi cael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg a darperir rhyngwynebaw Cymraeg ar gyfer meddalwedd (megis Microsoft Word) pan fo staff yn dymuno cael hynny.
- Rydym wedi cyfieithu'r testun ar hafan y fewnrwyd i'r Gymraeg.
- Mae unrhyw dudalennau ar y fewnrwyd sydd â thudalennau cyfatebol yn y Gymraeg yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg.
- Mae tudalennau wedi cael eu creu ar y fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae'r fewnrwyd wedi cael ei chyfieithu'n gyfan gwbl ac mae bellach ar gael yn yr iaith ddewisedig.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr trwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr gael cyrsiau Cymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i staff sydd eisiau gwella eu hyfforddiant Cymraeg sylfaenol drwy gynnig hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu, er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Darperir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i bob aelod o staff newydd.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff ddefnyddio ar eu llofnod e-bost, i hysbysu pobl a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae hefyd yn ymateb

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllideb mewn lle ar gyfer y gwaith hwn a bydd unrhyw gostau cysylltiedig yn cael eu hysgwyddo'n uniongyrchol gan wasanaethau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau'r Cabinet.

9. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn ein Strategaeth y Gymraeg a thrwy'r iaith Gymraeg

Adroddiad i:	Pwyllgor yr Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Mai
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
Awdur yr Adroddiad:	Gareth Watson – Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd Rheolaeth
Teitl:	Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn ynglŷn â'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd a wnaed gyda'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi cynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn Sir Ddinbych yn yr ymdrechion i ymateb yn bositif i newidiadau mewn deddfwriaeth iaith. Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i sefydlu safonau'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor Fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'i ymateb i'r Safonau.

Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ddeddfwriaeth newydd ac wedi gwneud ymrwymiad i gynnwys y Safonau Iaith Gymraeg a datblygu diwylliant ac ethos dwyieithog o fewn y Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso ei defnydd o fewn y sir.

Yr uchelgais yw atal y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych. O ganlyniad, rydym yn cynnig i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych drwy 0.5% dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o ystyried targed tymor hirach i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.

Bydd y Cyngor yn cyflawni prif elfennau'r strategaeth hon trwy weithio'n strategol ac ar y cyd â llu o sefydliadau cymunedol i brif-ffrydio'r Iaith Gymraeg ymhellach i ddarparu gwasanaethau a sicrhau ei fod yn ystyriaeth hanfodol mewn prosiectau, strategaethau a chynlluniau gwaith yn y dyfodol.

Mae pum maes allweddol ar gyfer datblygu a amlygir yn y strategaeth:

- Thema 1: Cynllunio Strategol yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych
- Thema 2: Plant a Phobl Ifanc
- Thema 3: Cymunedau
- Thema 4: Busnes a'r economi
- Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol o fewn y Cyngor

Mae'r pum thema hyn yn deillio o ymchwil helaeth a wnaed ar ran yr awdurdod.

Isod mae crynodeb o'r camau a gymerwyd eisoes fel rhan o'r Strategaeth:

- Mae Fforwm Iaith y Sir wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl, cyfrifoldeb ac aelodaeth diwygiedig. Mae'r prif ffocws ar gydweithio ac mae pob sefydliad yn glir o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt.
- Mae'r Cyngor a'i brif bartneriaid wedi ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau Iaith Gymraeg, er budd ehangach yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn adolygu effaith llunio polisïau a phenderfyniadau ar yr iaith Gymraeg a chymunedau ac mae yna broses i ystyried effaith gadarnhaol, negyddol a niwtral penderfyniadau.
- Mae holl bartneriaid ar Fforwm Iaith y Sir yn marchnata argaeledd cyrsiau iaith Gymraeg yn y gymuned.
- Mae'r Fforwm Iaith yn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau mawr ar draws y sir i hybu'r iaith Gymraeg. Maent yn cynnwys Sioe Dinbych a Fflint, carnifalau mewn trefi a'r Sioe Awyr. Mae pob partner yn traws-hyrwyddo digwyddiadau drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefannau.
- Mae ymgyrch wedi'i lansio i hybu addysg cyfrwng Gymraeg yn Sir Ddinbych.
- Mae'r Sir yn gweithredu'r Fframwaith Mwy Na Geiriau yn llwyr ar draws y sir, i sicrhau y gall pobl gael mynediad i gyngor a gwybodaeth iechyd a lles yn y Gymraeg.
- Mae cynllun cyfeillio a mentora'r Cyngor wedi'i ail-lansio.
- Sefydlu a gweithredu'r Pwyllgor Iaith Gymraeg.
- Mae Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg yn parhau i weithredu fel llysgenhadon yr iaith Gymraeg ar draws y sir.
- Mae holl gyrsiau Gymraeg, gan ddarparwyr lleol a'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol yn cael eu hybu ymhlith staff.
- Cynhelir arolwg sgiliau iaith staff yn flynyddol a bydd yn cael ei ailadrodd yn fuan.

- Mae holl siaradwyr Cymraeg a dysgwyr nawr yn gallu cael mynediad i becynnau Microsoft Word a Cysill/Cysgair.
- Mae sesiynau Gloywi Iaith wedi eu trefnu ar gyfer staff.
- Mae mewnrwyd y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.

Mwy Na Geiriau

Mae eitemau rheolaidd am yr iaith Gymraeg, adnoddau a gwybodaeth am amrywiol gyrsgiau hyfforddi am ddim (Ymwybyddiaeth Iaith a'r 'Cynnig Rhagweithiol') yn cael eu cynnwys yn newyddlen Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol a ddsberthir i'r holl ddarparwyr yn Sir Ddinbych. Mae hwn wedi cynnwys gwybodaeth am y Diwrnod Shwmai a Dydd Miwsig.

- Mae gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol hefyd wedi'i chynnwys yn y cyfarfod croesawu staff newydd sy'n ymuno â'r Adran ac i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn ystod cyfarfod sefydlu. Yn ogystal, rhoddwyd cyflwyniad ar y "Cynnig Rhagweithiol" i dros 300 o staff o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae AD Corfforaethol yn mapio sgiliau iaith staff CSDd ar I-Trent ar hyn o bryd ac mae'r proffil cymuned iaith Gymraeg wedi'i baratoi ar gyfer CSDd (diweddarwyd gan yr Adroddiad Asesu Poblogaeth a gynhyrchwyd o dan adran 14 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae cynllun cyfaill a sesiwn anffurfiol "Siarad siop a phaned" wedi'i gyflwyno i gynig cefnogaeth ychwanegol rhwng gwersi i gynyddu hyder staff i siarad Cymraeg o fewn yr Adran.

Mae ein holiadur profiad y cwsmer yn monitro a yw pobl wedi derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith. Mae'r canlynol wedi'i dynnu o'r dadansoddiad o'r arolwg 'Dweud eich dweud' sy'n ymwneud â'r cwestiwn: 'Roeddwn yn gallu cyfathrebu yn yr iaith a ffeirir gennyf'.

Roedd 424 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn, 99% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – Diweddariad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'r cydweithrediad agos yn parhau rhwng partneriaid i ddatblygu'r gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael ymhellach.

Mae'r gefnogaeth a'r cydweithio gyda Mudiad Meithrin yn parhau ac yn llwyddiannus.

Byddwn yn parhau i weithio ar brosiectau presennol ac yn datblygu ymhellach yn y misoedd i ddod.

Ar hyn o bryd mae 73% o ysgolion cynradd yn cynnig 50% neu lai o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cael i gyflwyno i Gabinet Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mai 2018.

Mae'r awdurdod lleol wedi lansio "Cymraeg Campus" ym mhob ysgol categori 4 a 5 sydd wedi sicrhau bod proffil yr iaith Gymraeg wedi cynyddu. Bydd yr ysgolion yn ymgeisio am gydnabyddiaeth gwobr efydd ac yn cael eu hasesu ar y camau a gymerwyd ganddynt.

Mae yna gymhwysiad i holl staff mewn ysgolion gwblhau archwiliad o sgiliau iaith. Defnyddir y data hwn i dargedu ysgolion a staff i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach

Derbyniodd yr awdurdod hwb mawr y llynedd wrth i ysgolion cyfrwng Cymraeg i gyd lwyddo i ennill y Siarter Iaith Arian. Mae'r ysgolion i gyd bellach yn ymgeisio i gyflawni'r wobwr aur sy'n hynod heriol. Bydd ysgolion yn cael eu hasesu yn y dyfodol agos i weld a ydynt wedi ennill y wobwr aur.

Mae cynllun marchnata sy'n hybu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i lansio. Bydd llyfryn marchnata yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos i godi ymwybyddiaeth am fanteision dwyieithrwydd.

Cynhaliwyd sesiwn i Lywodraethwyr ar ddatblygiadau mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r disgwyliadau i gyrraedd miliwn o siaradwyr ar 15 Mawrth, 2018.

Datblygu'r economi

Cynhaliwyd cyfres o fentrau i hybu'r iaith Gymraeg ymysg busnesau'r sir.

Maent yn cynnwys rhaglen hyfforddiant peilot i fusnesau Sir Ddinbych ar ddwyieithrwydd. Cysylltwyd â'r sawl a gymerodd ran yn Cymraeg mewn Busnes gan Iaith Cyf ar gyfer hyfforddiant pellach fel rhan o'r prosiectau dysgu pellach a gynhelir ganddynt.

Cynhaliwyd sesiynau ar gyfer busnesau ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae busnesau wedi derbyn dogfen briffio ar fanteision dwyieithrwydd.

Mae enghreifftiau o arfer da ynglŷn â darpariaeth iaith Gymraeg mewn busnes wedi'i hybu drwy'r cyfryngau lleol, ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn cyhoeddiadau corfforaethol.

Mae cefnogwyr busnes yn gweithredu fel llysgenhadon yr iaith Gymraeg yn y sir.

Y Camau Nesaf:

- Ymgyrch mewnol newydd i gyflwyno gofynion y Strategaeth.
- Cyflwyno sesiynau Gloywi Iaith i staff.
- Gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd.
- Datblygu Pecyn Croeso i deuluoedd newydd sy'n symud i'r sir

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Sir.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes yna gyllideb ar gyfer datblygu'r Strategaeth Iaith Gymraeg ac mae unrhyw gostau'n cael eu hamsugno drwy gyllidebau gwasanaeth presennol. Mae yna oblygiadau o ran adnoddau. Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu gan yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd, gyda chefnogaeth gan y Swyddog Iaith Gymraeg: Mae gwaith wedi'i ddyrannu i swyddogion eraill fel rhan o'r Strategaeth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r prif fanteision mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o brif elfennau'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor hefyd rôl drwy'r Safonau Iaith Gymraeg i hybu cyfleoedd i gymunedau lleol gyfrannu at weithgareddau Cymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau'r Cabinet. Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mawrth 2017.

9. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw enw da'r awdurdod, ac rydym eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor yr Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Mai
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
Awdur yr Adroddiad:	Gareth Watson – Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
Teitl:	Eisteddfod yr Urdd 2020

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dychwelyd i Sir Ddinbych

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Diweddarau'r Pwyllgor am gynnydd gyda thrafodaethau ynglŷn ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dychwelyd i'r sir yn 2020 ac amlinellu'r goblygiadau o ran adnoddau i'r Cyngor.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi cynnwys yr adroddiad.

4. **Manylion yr Adroddiad**

Cysylltodd trefnwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â'r Cyngor ar ddechrau 2017 i drafod cynnig i lwyfannu'r digwyddiad pwysig hwn yn Sir Ddinbych. Roedd Aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet yn cefnogi'r cynnig yn llwyr ac yn cytuno y byddent yn cefnogi a chydweithredu ar gyfer y digwyddiad.

Cynhelir y digwyddiad yn ystod gwyliau'r Sulgwyn ym mis Mai/dechrau Mehefin bob blwyddyn ac fe'i lleolir yn ne a gogledd Cymru bob yn ail. Mae'r Urdd bellach wedi cadarnhau y byddant yn dychwelyd i Sir Ddinbych yn 2020.

Fferm Kilford ar gyrion tref Dinbych fydd y lleoliad. Hwn oedd lleoliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2013. Mae'r safle wedi'i ddewis gan ei fod eisoes wedi cael ei brofi. Mae seilwaith mewn lle yno yn ogystal â digonedd o dir agored ar gyfer yr ŵyl, lle parcio cysylltiedig a maes carafanau.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref Dinbych ar 14 Mehefin lle cytunwyd yn ffurfiol gwahodd yr Eisteddfod i'r sir yn 2020.

Bydd y Cyngor yn sefydlu grŵp strategol i gydlynu trafodaethau â threfnwyr Eisteddfod yr Urdd. Bydd angen i gyfarfod cyntaf y Grŵp Strategol gael ei gynnal ym mis Mehefin 2018 ac yna bob chwarter ar ôl hynny.

Bydd cyfarfodydd y Grŵp Cynghori Diogelwch yn cael eu trefnu ar yr un diwrnod. Bydd cynrychiolwyr o'r Urdd yn mynychu'r Grŵp Strategol a'r Grŵp Cynghori Diogelwch.

Bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n sylweddol ag amryw o elfennau megis presenoldeb corfforaethol ar y maes, ymgysylltiad ysgolion, cyfranogi at y seremoni gyhoeddi, presenoldeb yn Eisteddfod Bae Caerdydd yn 2019, yn ogystal â gwasanaethau cyn ac yn ystod y digwyddiad.

Bydd angen i'r Cyngor weithredu rhaglen weithgareddau i hwyluso'r gwaith hwn yn llwyddiannus.

Cadeirydd y Grŵp Strategol fydd Arweinydd y Cyngor.

Mae hwn yn ddigwyddiad mor fawr nes bod Rheolwr Prosiect wedi'i benodi i gydlynu gweithgareddau ar ran y Cyngor.

Caiff y Rheolwr Prosiect ei gefnogi gan nifer o is-grwpiau a fydd i gyd yn cael eu cylch gorchwyl a'u rhaglen waith eu hunain.

Bydd y grwpiau canlynol yn cael eu sefydlu i reoli ymgysylltiad Sir Ddinbych â'r Eisteddfod.

Grŵp Cydgysylltu Strategol

- Arweinydd y Cyngor
- Rheolwr y Prosiect
- Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (neu ddirprwy dynodedig)
- Cadeirydd y Grŵp Cyfathrebu / Marchnata
- Cadeirydd y Grŵp Priffyrdd / Gwasanaethau Amgylcheddol
- Cadeirydd yr Is-grŵp Addysg / Ysgolion
- Cadeirydd Is-grŵp yr Economi / Busnes
- Cyfarwyddwr yr Eisteddfod - Urdd Gobaith Cymru.

Cyfathrebu a Marchnata

Bydd y grŵp hwn yn arwain y materion canlynol:

- Cynorthwyo'r Urdd i hyrwyddo / marchnata digwyddiad 2020
- Cynorthwyo i drefnu seremoni gyhoeddi yn 2019, pob agwedd ar gyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu (o safbwynt Cyngor Sir Ddinbych)
- Presenoldeb corfforaethol (pabell) ar y Maes yn ystod Eisteddfod 2020
- Cydweithio â swyddogion yr Urdd i wneud y gorau o'r cyfryngau trwy ymweliadau gan y wasg a chyfarfodydd briffio.
- Hyrwyddo'r Eisteddfod trwy wefan y Cyngor a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol
- Bod yn llysgenhadon lleol i'r digwyddiad.
- Twristiaeth – darparu gwybodaeth am lety, hyrwyddo dyddiau allan yn y rhanbarth.
- Presenoldeb yn Eisteddfod Bae Caerdydd yn 2019.

Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

Bydd y grŵp hwn yn arwain y materion canlynol:

- Glanhau strydoedd / ffyrdd
- Cynllun Trafnidiaeth
- Trafnidiaeth Gyhoeddus (bysiau gwennol)
- Casglu Gwastraff
- Trwyddedu
- Parcio
- Parth Cyhoeddus (plannu ar gylchfannau)
- Addurno strydoedd – baneri ac ati

Addysg / Plant / Pobl Ifanc / Hamdden

Bydd y grŵp hwn yn arwain y materion canlynol:

- Sioeau ysgolion cynradd ac uwchradd
- Cynnyddu cyfranogiad ysgolion Sir Ddinbych mewn cystadlaethau
- Cyngherddau / gwasanaethau
- Gwasanaeth leuenctid – ymgysylltu â phobl ifanc
- Cyfleoedd hamdden

Yr Economi / Busnes

Bydd y grŵp hwn yn arwain y materion canlynol:

- Cyfleoedd busnes i gwmnïau lleol
- Cymorth i gaffael
- Ymgysylltu â busnesau i gynyddu cyfleoedd o ganlyniad i'r Eisteddfod
- Ymchwil Ymwelwyr - budd economaidd

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu'n fawr hefyd at Strategaeth y Gymraeg sy'n amlygu'r bwriad i ddenu digwyddiadau mawr sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes angen gwneud unrhyw fuddsoddiad uniongyrchol pellach tuag at y gost o gynnal y digwyddiad gan fod y Cyngor yn darparu cyllid blynyddol trwy fargen a gytunwyd rhwng yr Urdd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ar wahân i gostau amser staff, bydd angen ystyried maint a fformat y presenoldeb corfforaethol ar y Maes. Bydd maint a natur y presenoldeb yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Mae'r Eisteddfod wedi cadarnhau na fydd y Cyngor yn codi am lain ar y Maes a bydd modd archebu pabell / adeiledd trwy'r Eisteddfod am brisiau gostyngedig.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau'r Cabinet.

9. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn ein Strategaeth y Gymraeg a thrwy'r iaith Gymraeg Language

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
Gorffennaf 2018	1	Cynnydd gyda Safonau'r Gymraeg (hunan-asesiad)	Ystyried diweddariad ar yr hunan-asesiad	
	2	Adroddiad Blynyddol Monitro'r Iaith Gymraeg	Cytuno ar Adroddiad Blynyddol Monitro'r Iaith Gymraeg sydd angen ei gyhoeddi erbyn Mehefin 30.	Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Gareth Watson
	3	Rôl Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg	Rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor am waith parhaus Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg	Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Gareth Watson
Hydref 2018				

Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau

<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiau Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiau Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiau Cau</i>

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag